

IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO (HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS)

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 13 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr J.C. Bird, C.A. Cave, P. Drake a V.P. Driscoll.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

Enw'r Llefarydd	Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad	Rheswm dros Siarad
K. Medhurst	Cais i Addasu Map a Datganiad Diffiniol Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 a53 (3) (c) (i) - Caradoc Avenue i Dyfan Road, Y Barri	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.

EITEM AGENDA 1 PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cyngorydd Bird yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor am weddill y flwyddyn ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 2 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cyngorydd Drake yn Is-Gadeirydd yr Is-bwyllgor am weddill y flwyddyn ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 4 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Derbyn Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill, 2016.

EITEM AGENDA 5 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 6 CAIS I ADDASU MAP A DATGANIAD DIFFINIOL
DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 A53 (3) (C) (I) - CARADOC
AVENUE I DYFAN ROAD, Y BARRI (RG) –

PENDERFYNWYD – Gwrthod y cais i wneud Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol mewn perthynas â llwybr sy'n rhedeg o Caradoc Avenue i Heol Dyfan, Y Barri sy'n cael ei gofnodi fel llwybr troed cyhoeddus gyda lled o 1.7 metr.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â'r profion cyfreithiol a'r dystiolaeth a nodir yn adroddiad yr ymchwiliad atodedig.

EITEM AGENDA 7 DEDDF PRIFFYRDD 1980 A119 GORCHYMYN
DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS ARFAETHEDIG LLWYBR TROED RHIF 39
GWENFÔ (RG) –

PENDERFYNWYD –

Bod y Cyngor, sef yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn bwrw ymlaen i wneud y Gorchymyn i wyro rhan o Llwybr Troed Rhif 39 Gwenfô, fel y disgrifir yn y cynllun gorchymyn a'r atodlen sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i Adroddiad yr Is-bwyllgor ac, yn amodol ar na gwrthwynebiadau yn dod i law, cadarnhau'r Gorchymyn.

Rheswm dros y penderfyniad

Byddai dargyfeirio'r llwybr troed yn fanteisiol er budd y cyhoedd. Roedd aliniad swyddogol presennol y llwybr troed yn croesi buarth gweithredol a thrwy ysgubor a oedd wedi bod ar aliniad y llwybr troed ers dros 35 mlynedd. Byddai'r gwyriad yn symud y llwybr troed i gae gerllaw cyfadeilad y fferm.

EITEM AGENDA 8 DEDDF PRIFFYRDD 1980 A119 GORCHYMYN
DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS ARFAETHEDIG LLWYBR TROED RHIF 6
SAIN DUNWYD (RG) –

PENDERFYNWYD – Bod y Cyngor, sef yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn bwrw ymlaen i wneud y Gorchymyn i wyro rhan o Llwybr Troed Rhif 6 Llanddunwyd, fel y disgrifir yn y cynllun gorchymyn a'r atodlen sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i Adroddiad yr Is-bwyllgor ac, yn amodol ar hynny, dim gwrthwynebiadau, cadarnhau'r Gorchymyn.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd dargyfeirio'r llwybr troed yn fanteisiol er budd y cyhoedd. Roedd yr aliniad swyddogol presennol yn mynd heibio'n agos at ymyl y clogwyn, a byddai'r llwybr wedi'i ddargyfeirio yn symud yr aliniad diffiniol i mewn i'r tir ymhellach o ymyl y clogwyn.